

Mae'r Ymchwiliad Cyfrinachol Cenedlaethol i Ganlyniadau a Marwolaethau Cleifion (NCEPOD) yn elusen sy'n gweithio i wella gwasanaethau iechyd i'r bobl sy'n eu defnyddio. Rydyn ni'n gwneud hyn drwy gasglu gwybodaeth gan bobl sydd wedi defnyddio gwasanaethau iechyd. Mae ein gwaith wedi arwain at lawer o newidiadau cadarnhaol yn y ffordd y darperir gofal iechyd.

EIN CASGLIADAU

Roedd lefelau sodiwm gwaed isel ac uchel ddim bob amser yn cael eu trin fel y dylent fod.

Nid oedd gan gleifion asesiad cyson o'u statws hylif na monitro a/neu gofnodi eu cydbwysedd hylif.

Ni chafodd achos y lefel sodiwm gwaed isel neu uchel ei ymchwilio'n llawn bob amser.

Dylai'r dewis o driniaeth ar gyfer sodiwm gwaed isel fod wedi bod yn wahanol i rai cleifion.

Ni chyfathrebwyd newidiadau i feddyginiaethau bob amser, a allai arwain at gleifion yn ailgychwyn meddyginiaethau oedd wedi achosi eu lefelau anarferol o sodiwm yn y gwaed.

Fe wnaethon ni gasglu gwybodaeth gan ysbytai a meddygon i weld sut y gellid gwella'r gofal i bobl sydd â lefel sodiwm gwaed isel neu uchel yn yr ysbyty.

BETH Y GALL GWASANAETHAU IECHYD EI WNEUD

Darparu mwy o hyfforddiant i glinigwyr a chreu pecynnau gofal gyda gwybodaeth glir am ba ymchwiliadau a thriniaethau sydd angen eu cynnal a'r amserlen y dylai hyn ddigwydd ynddi.

Datblygu safonau a chyfarpar clir ar gyfer asesu a chofnodi statws hylif ym mhob claf sydd â lefelau anarferol o sodiwm yn y gwaed. Archwilio cywirdeb y cofnodion cydbwysedd hylif.

Cynnwys arbenigwyr priodol i egluro'r rhesymau dros newidiadau i feddyginiaethau a chyfathrebu'r rhain â meddygon teulu.

Gall Prif Weithredwyr ac eraill sicrhau bod llythyrau rhyddhau yn cynnwys adran orfodol yn nodi a fu unrhyw newidiadau i feddyginiaethau, ynghyd â'r rhesymeg dros y newidiadau hynny.

Am wybodaeth am lefelau anarferol o sodiwm yn y gwaed:

Low blood sodium - Hyponatraemia
High blood sodium - Hypernatraemia

www.ncepod.org.uk

BETH Y GALLWCH CHI FEL CLAF/GOFALWR EI WNEUD

Gofynnwch i'ch tîm ysbyty beth yw achos sylfaenol eich lefel sodiwm isel neu uchel, a beth mae hyn yn ei olygu i'ch iechyd cyffredinol. A oes unrhyw beth y gallwch chi ei wneud neu ei newid i helpu i atal hyn rhag digwydd eto.

Os oedd unrhyw un o'ch meddyginiaethau rheolaidd wedi'u hatal neu eu newid yn yr ysbyty, gofynnwch i'ch tîm ysbyty a yw hwn yn newid parhaol. Dylid cyfathrebu unrhyw newidiadau i feddyginiaethau, a'r rheswm drostynt, â'ch meddyg teulu.

Cofiwch: Nid oes unrhyw gwestiwn yn rhy fach nac yn ddi-bwys. Mae eich tîm gofal iechyd am eich helpu i ddeall eich derbyniad i'r ysbyty ac i deimlo'n hyderus ynghylch eich gofal. Os nad ydych yn deall rhywbeth, daliwch i ofyn nes eich bod yn gwneud.

